**<u>Gwrandawiad Camymddwyn Cyflym – Canlyniad</u>**

**Swyddog:** Cyn PC 3304 Thomas Coppack
**Cyfeirnod yr Achos:** CM/31/23
**Dyddiad y Gwrandawiad:** 17 Awst 2026
**Cadeirydd:** Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman

Rwyf eisoes wedi penderfynu fod ymddygiad y Cyn PC Coppack yn cyfateb i Gamymddwyn Difrifol.

Wrth benderfynu ar y canlyniad, rwyf wedi defnyddio'r ymdriniaeth strwythuredig a amlinellir yng Nghanllawiau ar Ganlyniadau'r Coleg Plismona, sef:

- Asesu difrifoldeb y camymddwyn
- Cadw diben achosion camymddwyn mewn cof
- Dewis y canlyniad sydd yn cyflawni'r diben hwnnw fwyaf priodol.

Rwyf wedi ystyried amgylchiadau'r achos, yr dadleuon cyfreithiol a wnaed ar ran yr Awdurdod Priodol, dadleuon y cyn swyddog, a'r cofnod gwasanaeth a roddwyd i mi, yn ofalus.

Diben gwrandawiad camymddygiad yr heddlu ydy cynnal hyder y cyhoedd yn ac enw da'r gwasanaeth heddlu, cynnal safonau uchel plismona a gwarchod y cyhoedd. Rhaid blaenoriaethu'r ystyriaethau hyn dros ganlyniadau personol y swyddog unigol.

**Asesu Difrifoldeb**

<u>Beiusrwydd</u>

Mae beiusrwydd y cyn PC Coppack yn hynod uchel.

Cafodd y cyn PC Coppack ei euogfarnu'n dilyn achos yn Llys y Goron am ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol yn groes i adran 47 Deddf Troseddau'n Erbyn yr Unigolyn 1861. Mae'r euogfarn yn sefydlu fod yr ymddygiad troseddol heb amheuaeth wedi digwydd.

Mae Canllawiau'r Coleg Plismona wedi ei gwneud yn glir ei bod yn annerbyniol i swyddogion heddlu, sydd wedi'u hymddiried hefo gorfodi'r gyfraith, dorri'r gyfraith eu hunain. Mae'n nodi trosedd dreisgar fel ffurf hynod o ddifrifol ar droseddu ymhellach sy'n debygol o derfynu gyrfa swyddog. Mae hyn oherwydd ei fod yn torri ymddiriedaeth y cyhoedd yn hanfodol ac yn anochel yn dwyn anfri ar y proffesiwn.

Rwyf hefyd yn rhoi pwysau sylweddol ar y ffaith fod yr achos hwn yn cynnwys trais yn erbyn dynes. Mae Canllawiau'r Coleg Plismona yn bendant y bydd trais yn erbyn merched a genethod gan swyddog heddlu, boed ar neu oddi ar ddyletswydd, bob amser yn denu llawer iawn o feiusrwydd ac mae'n debygol o arwain at ganlyniad difrifol.

Mae swyddogion heddlu mewn swyddi cyfrifol. Mae gan aelodau'r cyhoedd hawl disgwyl y bydd swyddogion heddlu yn dangos hunanreolaeth, uniondeb, a pharch tuag at bobl eraill bob amser.

Niwed

Rwyf yn dod i'r casgliad fod y niwed sy'n codi o'r camymddwyn hwn yn sylweddol.

Mae niwed uniongyrchol i'r dioddefwr yn codi o'r ymosodiad a arweiniodd at euogfarn troseddol am niwed corfforol gwirioneddol.

Mae hefyd niwed sylweddol i enw da Heddlu Gogledd Cymru a phlismona'n ehangach. Mae Canllawiau'r Coleg Plismona yn mynegi'n glir fod hyn yn cynnwys niwed i hyder y cyhoedd a safle'r proffesiwn, boed y gellir mesur y newid hwnnw'n union gywir.

Yn ei hanfod, mae ymddygiad y cyn swyddog hwn yn wrthun i werthoedd plismona modern ac hefo disgwyliad y cyhoedd y gwnaiff swyddogion heddlu warchod pobl fregus ac ymdrin hefo trais yn erbyn merched a genethod. Rwyf yn nodi o'r gwrandawiad fod yr achos a'r ddedfryd wedi derbyn sylw'r wasg, gan gynyddu'r effaith bosibl ar hyder y cyhoedd ymhellach.

Byddai aelod rhesymol a gwybodus o'r cyhoedd yn iawn i ddisgwyl i'r gwasanaeth heddlu gymryd camau cadarn mewn amgylchiadau lle mae un o'i swyddogion wedi cael ei euogfarnu am drosedd dreisgar fel hyn.

Ffactorau Gwaethygol

Rwyf yn nodi'r ffactorau gwaethygol canlynol:

- Arweiniodd yr ymddygiad at euogfarn troseddol yn dilyn achos yn Llys y Goron a ddadleuwyd.
- Roedd y troseddu'n cynnwys trais ac arweiniodd at niwed corfforol gwirioneddol i'r dioddefwr.
- Mae'r ymddygiad yn syrthio o fewn y categori o drais yn erbyn merched a genethod, maes sy'n peri pryder sylweddol yn genedlaethol ac o fewn plismona.
- Mae'r ymddygiad wedi achosi niwed sylweddol i hyder y cyhoedd mewn plismona.
- Denodd yr achos sylw'r wasg, gan godi amlygrwydd y camymddygiad a'i effaith ar ymddiriedaeth y cyhoedd.

Ffactorau Lliniarol

Rwyf wedi ystyried y lliniaru sydd ar gael i'r cyn PC Coppack.

Rwyf yn nodi o'i gofnod gwasanaeth ei fod wedi ymuno hefo Heddlu Gogledd Cymru gyntaf fel aelod o staff yr heddlu yn 2012 a daeth yn swyddog heddlu yn 2017. Rwyf yn nodi hefyd nad oedd ganddo unrhyw achosion disgyblu blaenorol yn ei erbyn.

Rwyf hefyd wedi ystyried ei fod wedi ymddiswyddo cyn y gwrandawiad hwn.

Fodd bynnag, rwyf yn rhoi pwysau ar y materion hyn. Mae Canllawiau'r Coleg Plismona a chyfraith achosion perthnasol yn mynegi'n glir fod lliniariad personol yn cario llawer llai o bwysau pan mae camymddwyn difrifol wedi cael ei brofi. Mae hyn oherwydd mai'r brif ystyriaeth ydy cynnal hyder y cyhoedd ac enw da'r gwasanaeth heddlu.

Ni allaf ddod o hyd i unrhyw nodwedd eithriadol sy'n gallu lleihau difrifoldeb yr ymddygiad neu gyfiawnhau canlyniad llai llym.

**Ystyriaeth y Canlyniad**

Rwyf wedi ystyried yr ystod lawn o ganlyniadau sydd ar gael.

Yn achos cyn swyddog, pan brofir camymddwyn difrifol mewn gwrandawiad camymddwyn cyflym, y cwestiwn perthnasol ydy a fyddai'r swyddog wedi cael ei ddiswyddo pe byddent wedi parhau'n swyddog yn gwasanaethu.

Rwyf wedi ystyried a allai canlyniad llai llym gynnal hyder y cyhoedd yn briodol, cynnal safonau proffesiynol a gwarchod enw da plismona.

Rwyf wedi dod i'r casgliad na allai wneud hynny.

Mae ymddygiad fel hyn yn ei hanfod yn anghydnaws hefo safonau sy'n ddisgwyliedig gan swyddog heddlu. Byddai rhoi canlyniad llai llym yn, fy marn i, yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth heddlu yn ddifrifol. Byddai hefyd yn methu dangos y safonau y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl gan y rhai hynny sydd yn swyddog heddlu.

Rwyf yn fodlon y byddai aelod rhesymol a gwybodus o'r cyhoedd yn disgwyl diswyddiad yn yr amgylchiadau hyn.

**Penderfyniad (Canlyniad)**

Wedi ystyried yr holl dystiolaeth, y dadleuon cyfreithiol, cofnod gwasanaeth y swyddog, Canllawiau'r Coleg Plismona ar Ganlyniadau a diddordeb ehangach y cyhoedd yn ofalus, rwyf yn fodlon fod y camymddygiad yn gwbl anghydnaws hefo parhau i wasanaethu fel swyddog heddlu.

Mae difrifoldeb y camymddwyn, y beiusrwydd hynod uchel, y niwed a achoswyd, y nodweddion gwaethygol sy'n bodoli a'r lliniariad cyfyngedig sydd ar gael yn fy arwain at y casgliad clir mai diswyddiad ydy'r unig ganlyniad priodol a chymesur.

Felly, canlyniad y Gwrandawiad Camymddwyn Cyflym hwn ydy y byddai'r cyn PC Thomas Coppack wedi cael ei ddiswyddo heb rybudd pe bai dal i wasanaethu fel swyddog heddlu. Bydd ei enw'n cael ei roi ar Restr Unigolion Gwaharddedig y Coleg Plismona.

**Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman KPM**
**17 Awst 2026**